**Tasg 1**

# Pysgod! Pysgod! Pysgod!

## Adnabod pysgod

Ydych chi'n adnabod eich pysgod? Ydych chi'n gwybod y gwahaniaeth rhwng macrell a lleden? Rhwng wystrys a chregyn gleision? Wel, dyma'ch cyfle i brofi eich bod chi'n gwybod beth yw beth!

Cysylltwch enwau'r pysgod gyda'r lluniau.














Enwau'r pysgod

| |
|---|
| **cimwch** |
| **cocos** |
| **corgimwch** |
| **cregyn gleision** |
| **draenog y môr** |
| **lleden** |
| **macrell** |
| **mingrwn coch** |
| **morgath** |
| **penfras** |
| **sewin** |
| **wystrys** |

| Geirfa | | |
|---|---|---|
| **CYMRAEG** | **DISGRIFIAD** | **SAESNEG** |
| cimwch | pysgodyn cragen sydd â chrafangau miniog | lobster |
| cocos | pysgod cregyn sy’n cael eu casglu ar lan y môr | cockles |
| corgimwch | pysgodyn môr bach mewn cragen sydd â deg coes | prawn |
| cregyn gleision | pysgod môr cregyn sy’n glynu wrth greigiau ar lan y môr | mussels |
| draenog y môr | pysgod môr poblogaidd sydd â chroen lliw arian | sea bass |
| lleden | pysgodyn môr fflat sy’n boblogaidd i’w fwyta gyda sglodion | plaice |
| macrell | pysgodyn môr â chroen streipiog sy’n cael ei fwyta’n ffres yn yr haf | mackerel |
| mingrwn coch | pysgodyn môr crwn sydd â chroen lliw coch | red mullet |
| morgath | pysgodyn môr fflat, siâp deimwnt sydd â chynffon hir | skate |
| penfras | pysgodyn môr poblogaidd iawn i’w fwyta gyda sglodion | cod |
| sewin | pysgodyn môr smotiog o’r un teulu â’r brithyll | sewin |
| wystrys | pysgod cregyn sy’n cael eu cysylltu â pherlau | oysters |